Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**



# Gwasanaeth gofal plant Glennie

Meithrin cysylltiadau cymunedol

## Cefndir

Mae Glenys Jones, sy'n cael ei hadnabod fel "Glennie", yn warchodwr plant cofrestredig yn Aberdyfi, Gwynedd, gyda 26 mlynedd o brofiad. Yn gweithio ar ei phen ei hun mewn ardal wledig gyda dim ond dau warchodwr plant, roedd hi'n wynebu unigrwydd a heriau i ddechrau, gan gynnwys effaith y pandemig.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Mae Glennie wedi gwneud cysylltiad cymunedol yn rhan ganolog o'i hymarfer, gan fynd allan gyda'r plant yn rheolaidd er mwyn:

- mynychu grwpiau plant bach lleol ar gyfer gweithgareddau canu, amser chwarae a chrefftau
- ymweld â'r llyfrgell i ganu caneuon Cymraeg a mwynhau amser stori
- cymryd rhan mewn sesiynau "Plant Bach yn yr Awyr Agored" mewn coedwigoedd ac ar draethau lleol
- mynychu digwyddiadau ysgol i gefnogi'r cyfnod pontio
- trefnu taith gerdded elusennol i blant bach a gododd £1,425
- dathlu diwylliannau gwahanol gan ddefnyddio blwch gwiail o eitemau wedi'u labelu "Today I went to Wales/China" ac ati
- cymryd rhan mewn grŵp cyfnewid llythyrau â gwarchodwyr plant eraill, lle mae plant yn gwneud cardiau a hamperi i'w rhoi i blant eraill

Mae plant a oedd yn dawel ac yn anghyfarwydd â grwpiau lleol i ddechrau wedi gweld buddion sylweddol.

## Effaith ...

- Mwy o hyder ac annibyniaeth wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd
- Gwneud ffrindiau newydd â phlant y tu allan i'r lleoliad
- Mwy o hyder wrth fod yn yr awyr agored a chwarae'n flêr
- Ehangu eu geirfa
- Dathlu amrywiaeth o fewn y gymuned ehangach
- Ymfalchïo mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp

> *“Drwy ymgysylltu â'r gymuned ehangach rydym yn agor drysau i bob un ohonom ddysgu mwy. Gallwn rannu caredigrwydd, bod yn fwy chwilfrydig a dod yn rhan o rywbeth mwy.”*